**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (21)**

**Dydd Mawrth, 15 Hydref 2002**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad: Canolfan Mileniwm Cymru**

**Eitem 3**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 4**
**Cynnig Trefniadol**
***Bydd y Trefnydd yn cynnig cynnig trefniadol dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen y cynigion heb ddyddiad trafod 1169 and 1170***

*NNDM1169* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002.

*NNDM1170* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2002;

2. Yn cymeradwyo:
Bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002.

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Ddrafft y Cynulliad**
*NDM1168* - Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.2, yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2003-2004, 2004-2005 a 2005-06, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Hydref 2002 gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Edwina Hart.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)+(2)**

**(3)+(4)+(5)**

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd;
Yn nodi gyda phryder y crebachu sylweddol yng nghronfeydd wrth gefn y gyllideb ac effaith andwyol bosibl hynny ar allu'r Llywodraeth i ymateb i argyfyngau ac i newid ym mlaenoriaethau gwariant.

**Gwelliant 2 -Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd;
Yn condemnio'r diffyg cefnogaeth ariannol i system drafnidiaeth a fyddai'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd;
Yn condemnio Llywodraeth Cynulliad Cymru am fethu â chydnabod bod angen cynyddu'r arian mewn meysydd allweddol o'r gyllideb megis:

a) Mentrau Cyffuriau ac Alcohol
b) Tai
c) Hybu iechyd a Gwasanaethau Iechyd y Teulu

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd;
Galw am fod yn fwy agored yn y modd y cofnodir y cyllid a neilltuir i'r gwasanaethau rheng flaen ym maes iechyd ac addysg yn y gyllideb.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd;
Yn cadarnhau bod angen adolygu'r Fformiwla Barnett i adlewyrchu'n llawn anghenion Cymru, o gofio bod effaith y fformiwla bresennol yn golygu nad yw'r cynnydd ym mloc Cymru'n cyfateb i'r cynnydd yn Lloegr.

Cliciwch yma i weld y gyllideb ddrafft ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2003-2004, 2004-2005 a 2005-06 - *(Ni fydd y ddogfen ar gael ar we'r Siambr)*

**Eitem 6**
**Dadl ar Ganolfan Mileniwm Cymru - *Ni chyflwynwyd cynnig***

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 16 Hydref 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**